# Blodau'r Haul Bendigedig

## Amcanion dysgu:

Dysgu am gylch bywyd blodyn yr haul.

Bod yn chwilfrydig am dyfu.

Sgiliau arsylwi ac iaith wrth i'r blodyn haul newid.



cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Dechrau o Hedyn

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae blodyn yr haul cyffredin fel arfer yn tyfu ac yn blodeuo o fewn tua 100 diwrnod.

Wrth iddo ddatblygu, mae pen y blodyn yn dilyn symudiad yr haul ar draws yr awyr, gan helpu i wneud y mwyaf o'i dwf.

Mae blodau'r haul yn gnwd pwysig, yn cynhyrchu hadau ac olew bwytadwy, ac maen nhw wedi cael eu tyfu gan bobl ers miloedd o flynyddoedd.

Maen nhw hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi bywyd gwyllt: mae eu blodau llachar yn denu peillwyr fel gwenyn, tra bod eu hadau yn ffynhonnell fwyd werthfawr i adar. Yn ogystal, gall blodau'r haul wella iechyd y pridd drwy helpu i gael gwared ar docsinau, ac mae eu gwreiddiau dwfn yn eu gwneud yn arbennig o gryf a gwydn mewn amodau gwyntog.

## Adnoddau y byddwch chi eu hangen:

Cardiau trefnu cylch bywyd blodyn yr haul.




Hedyn


Egin


Planhigyn


Blodyn yr haul


Pen hadau

## Gweithgaredd:

Torrwch y cardiau allan ac anogwch y plant i feddwl am y drefn gywir y dylid eu rhoi ynddi.

## Awgrym gwych:

I wneud y gweithgaredd yn fwy difyr, ychwanegwch rywfaint o symudiadau ioga ar gyfer pob cam.


**Hedyn** – dylai'r plant fod yn fach, wedi cyrcydu ar y llawr.

**Egin** – dal wedi cyrcydu ond yn dal eu dwylo uwch eu pennau, efallai gydag un bys o bob llaw yn esgus bod yn ddail bach.

**Planhigyn** – sefyll i fyny gan ddal y dwylo allan i ddangos y dail.

**Blodyn** – ymestyn yn dal gyda'r dwylo mewn cylch i fod yn y blodyn. Gallent hefyd ddilyn yr haul.

**Pen hadau** – mae'r breichiau'n disgyn i'r ochrau gan fod yr hadau bellach yn drwm.



Eco-Tots Cymru

## Dewch i dyfu!

Beth am dyfu eich blodau haul eich hun yn eich lleoliad, gan roi cyfleoedd dysgu ymarferol gwerthfawr iawn i'r plant?

Unwaith y bydd y blodyn wedi cyrraedd y cam pen hadau, gallwch ddefnyddio'r sgiliau echddygol manwl a'r sgiliau canolbwyntio hynny i dynnu'r hadau allan gyda phlicwyr ac ailblannu'r hadau i wylio'r broses yn dechrau eto! Mae hyn yn rhoi profiad ymarferol anhygoel i'r plant o'r cylch bywyd cyflawn mewn ffordd ystyrlon.

Beth am gadw golwg ar y bywyd gwyllt mae eich blodyn haul yn ei helpu? Cyfrifwch faint o wenyn, adar neu löynnod byw sy'n galw heibio. Gallech hyd yn oed dynnu llun o'r bywyd gwyllt mewn sialc ar y llawr a chadw cyfrif drwy ychwanegu llinell bob tro y byddwch chi'n gweld un.

## Byddwch yn greadigol!

Ewch â phaent, sialc neu greonau allan a defnyddiwch flodyn yr haul fel model. Gallai'r plant beintio gyda'u bysedd neu fforc i greu'r petalau, a defnyddio blaen bys neu ben brwsh paent i wneud y canol brown smotiog. Gadewch i'r blodyn haul arwain y chwilfrydedd a'r archwilio.